# Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Mai 24ain 2022 yn Neuadd Sarnau. Yn bresennol oedd Rita Jones (cadeiryddes), Alwyn Jones, Iolo V. Evans, Eilir Rowlands, Bethan Thomas, Gwynedd Jones, Gwenda Evans, Gwenda Morris, Gary Thomas a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Eifion Davies, Dewi Pritchard a'r Cyng. Elwyn Edwards.

Gan nad oedd Maldwyn Jones yn bresennol cytunodd Rita Jones i gadeirio'r cyfarfod.
Croesawyd Gwenda Morris yn nol i'r cyngor ar ôl cyfnod o salwch.

**i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Mawrth a chafwyd yn gywir.**

**ii) Datgan Buddiant.**
Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

**iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.**

a) Ymateb i'r cwynion a dderbyniwyd yn y cyfarfod diwethaf:-
i) Gwrych wedi gordyfu i mewn i'r ffordd rhwng y parc chwarae a'r pentref yn Llandderfel – cafwyd cadarnhad fod yr Arolygwr Priffyrdd wedi cael gair gyda'r perchennog.
ii) Sbwriel ar ochr yr A494 o Lanrafon i Bala ac yng nghei Llyn Celyn – roedd y mater wedi cael ei anfon ymlaen i'r Uned Glanhau Strydoedd.
iii) Coed ger mynedfa Clwb Carafanau a Gwersylla, Crynierth, Cefnddwysarn - roedd rhywfaint wedi cael eu torri ond roedd y canghennau yn dal i bwyso ar y lein ffon.
iv) Baw adar ar balmentydd stryd fawr Y Bala – er i'r Cyngor Tref ceisio cael datrysiad i'r broblem nid oedd dim y gallent ei wneud ar hyn o bryd.
v) Llifogydd ym mhentref Llandderfel – roedd yr Arolygwr Priffyrdd wedi trefnu i'r gwteri gael eu glanhau. Roedd swyddogion yr Ymgynghoriaeth Gwynedd yn delio gyda'r broblem llifogydd o'r afon.
vi) Llechi yn rhydd ar do'r Hen Ysgol Fritanaidd, Glanrafon - roedd Swyddog Rheolaeth Adeiladu Cyngor Gwynedd wedi cael gair gyda'r perchennog. Roedd y llechi ar du blaen yr adeilad wedi clirio ond roedd ochr yr anheddau gerllaw dal yn beryg. Gofynnwyd i'r clerc ail gysylltu â'r swyddog ynglŷn â hyn.
vii) Damweiniau ar yr A494 - yn dilyn damweiniau pellach, cytunwyd i anfon y manylion yma ymlaen i Adran Rheoli Rhwydwaith y Llywodraeth a phwysleisio'r angen i adolygu mesuriadau cyflymder cyn gynted â phosib.

b) Mynwentydd.
Roedd giât mynwent Frongoch wedi cael ei phaentio a'i ail osod ac roedd addewid y byddai'r gwaith ar giât a railings mynwent Llandderfel yn cael ei gwblhau yn yr wythnosau nesaf. Gwnaed trefniadau gyda'r cynghorwyr i archwilio'r cerrig beddau a'r mynwentydd ac adrodd yn nôl am unrhyw waith oedd angen ei wneud. Cytunwyd i osod hysbyseb ym Mhethe Penllyn i hysbysu'r cyhoedd o'r gwaith yma.

**iv) Gohebiaeth.**

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Cyngor Gwynedd.
i) Rhaglen waith yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol - Mis Ebrill & Mai.
ii) Ymgynghoriad Cyhoeddus – Holiadur Anghenion Tai.

b) Amrywiol.
i) Cylch yr Iaith - gwarchod enwau lleoedd Cymraeg. Cytunwyd i yrru at Jeremy Miles, Gweinidog y Gymraeg, yn mynegi siom y Cyngor nad oedd unrhyw fwriad yn rhaglen Llywodraeth Cymru i sicrhau gwarchodaeth statudol i enwau lleoedd tirweddol Cymraeg nac enwau tai Cymraeg.
ii) Newyddion Coedwig Genedlaethol i Gymru. Cytunwyd i yrru atynt i grybwyll gwrthwynebiad y Cyngor i'r bwriad o blannu coed ar dir amaethyddol.



Arwyddwyd: ………………………………………….          Dyddiad: …………………………………..

iii) Cyngor Cymuned Llanuwchllyn - Cynllun Ardal Llanuwchllyn. Cydnabuwyd yr holl waith a oedd wedi cael ei wneud i baratoi'r cynllun.
iv) Cais am gefnogaeth i gael diffib i bentref Llanfor - derbyniwyd llythyr yn egluro bwriad y gymuned i brynu diffib i'r pentref. Gofynnwyd a byddai'r Cyngor Cymuned yn gallu eu cynorthwyo drwy gael caniatâd i osod polyn i'w osod. Cytunwyd yn unfrydol i wneud hyn a hefyd eu cynorthwyo i adhawlio'r TAW ac ychwanegu'r offer i bolisi yswiriant y Cyngor fel y gwnaed gyda diffibs Sarnau a Chwmtirmynach.
v) Benthyg Cymru - cyngor ar sut i sefydlu cynllun cymunedol i gynnig benthyg offer garddio, tŷ ayyb i'r gymuned.

**<u>v) Ceisiadau Cynllunio.</u>**

a) Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio canlynol:-
C22/0177/04/LL - Addasu, ymestyn a chysylltu dau adeilad allanol presennol yn 2 uned wyliau cynhaliol. Bryn Banon, Llanfor.
C22/0249/04/LL – Adeiladu sied amaethyddol. Tyn Y Ddol, Llandderfel.
C21/0314/04/CR – Codi porth ar flaen yr eiddo a lolfa haul. Tyn Y Ddol, Llandderfel.

**<u>vi) Materion Ariannol.</u>**

<u>a) Derbyniadau.</u>
i) Rhandal cyntaf y Praesept - £4,500.
ii) Cronfa Prosiectau Cymunedol Bychain Parc Cenedlaethol Eryri - £500 (grant lloches bws Frongoch).

<u>b) Archwiliad Blynyddol & canllawiau statudol cyhoeddi cyfrifon ariannol 2022-23.</u>
Roedd Cyngor Gwynedd wedi archwilio'r cyfrifon a chafwyd cadarnhad i sicrwydd yn nhrefniadau llywodraethu a datganiadau cyfrifyddu'r Cyngor. Cytunwyd yn unol â gofynion y datganiadau cyfrifyddu a llywodraethu yn y ffurflen archwiliad blynyddol. Cafwyd braslun gan y clerc o'r amserlen o'r canllawiau statudol cyhoeddi cyfrifon ariannol 2022-23.

<u>c) Taliadau</u>
i) Cadarnhaodd y clerc eu bod wedi talu Macemain am loches bws Frongoch ar ddiwedd mis Mawrth (cymeradwywyd i'w dalu yn y cyfarfod ym mis Mawrth).
ii) Cytunwyd i dalu'r canlynol:-
AJG Community Schemes (yswiriant)
Ad-daliad i'r clerc, cost bin gwastraff gardd i fynwent Llandderfel

<u>ch) Ceisiadau Ariannol.</u>
Derbyniwyd ceisiadau gan Eisteddfod yr Urdd Cylch Penllyn, Kids Cancer Charity a Teenager Cancer Trust Cymru.
Cytunwyd i'w trafod gyda gweddill y ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.

**<u>vii) Materion lleol.</u>**
<u>a) Gofynnwyd i'r clerc basio'r cwynion canlynol ymlaen i'r adrannau perthnasol:-</u>
i) Tail a phridd ar y B4401, Llandderfel ger Bryn Bannon.
ii) Gwrych yn tyfu i'r ffordd ger hen gapel Glanrafon. Cytunodd Gwynedd Jones wneud ymholiadau ynglŷn â phwy oedd yn gyfrifol am dorri'r glaswellt yn y fynwent rŵan fod yr adeilad wedi cael ei werthu.
iii) Ymholi pwy oedd yn berchen ar y llecyn o dir ar ochr y ffordd rhwng pentref Sarnau a Pencefn.
iv) Angen arwydd toiledau newydd dwyieithog ger Llyn Celyn.
v) Cyflwr yr A494 rhwng Tomen Gastell, Llanfor a Sarnau.
vi) Cwynion am y camfeydd a'r llwybrau troed ger Crogen, Llandderfel, Bryniau Gwynion a Llwyn Iolyn, Cefnddwysarn.

# Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Gorffennaf 5ed yn am 7.30 y.h. yn Neuadd Sarnau.



Arwyddwyd: ………………………………………….          Dyddiad: …………………………………..